


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Panel Adolygu Annibynnol

Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mai 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Panel Adolygu Annibynnol

Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mai 2010



Rhagair y Cadeirydd

Roedd ein briff yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a gwneud argymhellion ynghylch ethos dwyieithog y Pedwerydd Cynulliad a fydd yn dechrau yn 2011 ac yn dod i ben yn 2015.

Cyfarfu aelodau'r Panel ar ddeg achlysur dros gyfnod o dri mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw, digwyddodd datblygiadau gwleidyddol arwyddocaol. Dechreuodd y Cynulliad Cenedlaethol y broses o alw am Refferendwm ar bwerau datganoledig a chyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Fesur Iaith.

Mae'n bosibl y bydd y ddwy fenter yn effeithio'n ddwfn ar nod a chyfrifoldebau'r Pedwerydd Cynulliad. Fodd bynnag, mae aelodau'r Panel wedi ceisio diffinio ethos dwyieithog i'r Comisiwn a'r Cynulliad Cenedlaethol, a hynny waeth beth fydd y datblygiadau gwleidyddol neu ieithyddol yn y cyfamser.

Ein nod hefyd oedd ceisio sicrhau'r manteision mwyaf i'r dinesydd a'r Cynulliad Cenedlaethol o ran y cyfleoedd a gynigir drwy Gymru Ddigidol. Nodwyd gennym nad yw'r ddeddfwriaeth i sefydlu cofnod cyhoeddus yng Nghymru wedi'i rhoi ar waith hyd yn hyn, a gobeithiwn y bydd hyn yn digwydd yn fuan. Yn benodol, rydym yn argymhell bod mwy o waith yn cael ei wneud i archifo cofnodion y Cynulliad.

Rydym yn ddiolchgar i'r Llyfrgellydd Cenedlaethol a'i staff am gynnal ein cyfarfod ar 19 Chwefror yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Diolchwn hefyd i'r holl dystion a gyflwynodd dystiolaeth lafar i ni ac i eraill a gyflwynodd eu sylwadau ar bapur.

Ar ran fy nhri chydweithiwr, hoffwn ddiolch i Gwyn Griffiths, Sarah Roberts a Joel Steed a'r tîm ardderchog ac ymroddedig o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd am eu cyngor, eu harweiniad a'u cymorth. Mae

ein profiad o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gasglwyd gan Aelodau'r Cynulliad am ansawdd uchel iawn y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir yn eu cyfarfodydd.

Arwel Ellis Owen

Mynegai

Rhagair y Cadeirydd	1
Mynegai	3
Geirfa	5
Crynodeb o'r argymhellion	7
Aelodau'r Panel	12
Cylch gorchwyl	14
Cyflwyniad	16
Rhan A – Y CYD-DESTUN	
A1 Cefndir	17
A2 Gwaith y Panel	19
A3 Y cyd-destun deddfwriaethol	20
A4 Mesur i'r Cynulliad	24
A5 Dwyieithrwydd mewn cyd-destunau rhyngwladol	27
A6 Gwasanaethau presennol yn y Cynulliad Cenedlaethol	33
A7 Y cyd-destun technolegol	35
A8 Tuag at ddyfodol digidol	38
Rhan B – YSTYRIAETHAU AC ARGYMHELLION Y PANEL	
B1 Y Cofnod	41
B2 Cofnod y Werin	45
B3 Gwasanaethau dwyieithog eraill	47
B4 Y trefniadau gweinyddol	51
B5 Materion eraill	55
B6 Sylwadau i gloi – sefydliad gwirioneddol dwyieithog	56

Atodiad 1 - Rhestr o'r tystion a gyflwynodd tystiolaeth lafar	57
Atodiad 2 - Deunydd darllen pellach	58

Geirfa

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - sefydlwyd y Cynulliad o dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel cangen ddeddfu'r Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru.

Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol - sefydlwyd y Comisiwn o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo, y staff, a'r gwasanaethau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum aelod, sef y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad arall, gydag un yn cynrychioli pob grŵp plaid y Cynulliad.

Clerc y Cynulliad - penodir y Clerc o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Y Clerc hefyd yw'r Prif Weithredwr a phennaeth y staff a benodir gan y Comisiwn. Cyfrifoldeb y Clerc, gyda chymorth yr Uned Gorfforaethol, yw gweithredu penderfyniadau'r Comisiwn.

Cyfarwyddwyr - penaethiaid y tair prif adran y rhennir staff y Comisiwn iddynt:

- Gweithrediadau, sef Cyfathrebu Allanol, Adnoddau'r Cynulliad (Cyllid ac Adnoddau Dynol (AD)) ac Ystadau a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) (sy'n cynnwys Diogelwch);
- Busnes y Cynulliad, sef Gwasanaeth y Pwyllgorau, y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth;
- Gwasanaethau Cyfreithiol.

Cyfathrebu Allanol - mae'n gyfrifol am godi proffil Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ennyn diddordeb y cyhoedd ledled Cymru.

Mae cyfrifoldebau'r adran yn cynnwys cyswllt â chwsmeriaid a'r cyhoedd, addysg, cyswllt â'r cyfryngau, cyhoeddiadau a digwyddiadau.

Gwasanaeth y Pwyllgorau - mae'n rhoi cymorth ysgrifenyddol i bwyllgorau'r Cynulliad ac eithrio'r pwyllgorau deddfwriaeth ac yn rhoi cyngor gweithdrefnol i gadeiryddion ac aelodau'r pwyllgorau hynny.

Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth - mae'n rhoi cymorth i bwyllgorau deddfwriaeth a Chyfarfod Llawn y Cynulliad.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau - mae'n rhoi cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau'r Cynulliad ac i Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'n rhoi cymorth i Aelodau gyflawni eu swyddogaethau craffu a'u swyddogaethau etholaethol a deddfwriaethol.

Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi - mae'n cynnwys timau o gyfieithwyr ar y pryd, cyfieithwyr testun a golygwyr Cofnod y Trafodion a thrawsgrifiadau pwyllgorau.

Cyfarfod Llawn - cyfarfodydd sy'n cynnwys y 60 Aelod Cynulliad. Fe'u cynhelir ym mhrif siambr y Senedd.

Cofnod y Trafodion (y Cofnod) - cofnod testun o'r hyn a gaiff ei ddweud yn ystod Cyfarfod Llawn y Cynulliad. Gelwir cofnod testun o'r hyn a gaiff ei ddweud yn ystod pwyllgorau yn drawsgrifiad.

Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r argymhellion a ganlyn yn dilyn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad, ac nid ydynt o reidrwydd yn nhrefn pwysigrwydd.

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu ei ddulliau cyfathrebu â dinasyddion o bob oed sy'n defnyddio safleoedd rhyngweithio cymdeithasol fel ffordd o wrando ar bleidleiswyr, hyrwyddo dadl agored a deall anghenion y cyhoedd sy'n defnyddio fforymau ac yn cyfnewid gwybodaeth drwy gyfryngau o'r fath fwyfwy. (paragraff 56)

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut y gallai datblygiadau disgwylidig yn y maes technoleg wella dwyieithrwydd yn ei waith drwy gynnal ymgynghoriad mwy manwl ac arbenigol. (paragraff 57)

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn parhau i adolygu datblygiadau technolegol, er mwyn manteisio ar feddalwedd adnabod llais amldefnyddiwr cyn gynted ag y bo wedi'i datblygu'n ddigonol i gael ei defnyddio'n effeithlon. (paragraff 60)

Rydym yn **argymell** bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith / ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, fel y'i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd. (paragraff 68)

Rydym yn **argymell** mai senedd.tv ddylai fod y prif gofnod cynhwysfawr a gedwir ar gyfer ymchwilwyr a haneswyr yn y dyfodol. (paragraff 71)

Rydym yn **argymell** y dylid datblygu'r "Pleidleisiau a Thrafodion" a chofnodion y pwyllgorau i fod yn gyfleuster sy'n fwy cyfeillgar i'r dinesydd a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu mwy at ddemocratiaeth agored. (paragraff 73)

Rydym yn **argymell** bod gennym yr hyn a elwir yn "Gofnod y Werin" sy'n gwbl ddwyieithog. Byddai'r Cofnod hwn yn cynnwys rhestr o siaradwyr, y penderfyniad a wnaed a rhestr o'r materion a drafodwyd mewn modd sy'n niwtral yn wleidyddol a byddai ar gael erbyn diwedd y diwrnod a ganlyn. (paragraff 73)

Rydym yn **argymell** y dylid sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archifo cofnodion o'r fath yn y tymor hir a sicrhau bod y cyhoedd yn gallu'u defnyddio, gyda chymorth y Llyfrgell Genedlaethol, yn cael eu cwblhau yn fuan. (paragraff 80)

Rydym yn **argymell** y dylid cyhoeddi papurau ymchwil Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau y gellir eu llwytho o'r wefan (a phob dogfen arall a gynhyrchir gan y Cynulliad) yn y ddwy iaith ar yr un pryd. (paragraff 82)

Rydym yn **argymell** y dylai papurau briffio i Aelodau cyn y Cyfarfod Llawn neu drafodaethau pwyllgor fod yn ddwyieithog oni bai fod cyfyngiadau amser yn golygu nad yw hyn yn ymarferol. (paragraff 83)

Rydym yn **argymell** bod cwestiynau posibl at ddefnydd Aelodau sy'n siarad Cymraeg mewn pwyllgor ar gael yn y ddwy iaith er mwyn ennyn Aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg fwy. (paragraff 83)

Rydym yn **argymell** y dylai fod gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yr adnoddau i'w alluogi i ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Aelodau yn Gymraeg ac y dylid hyrwyddo'r gwasanaeth hwn er mwyn

gwrthbwysu'r disgwyliad presennol ymhlith Aelodau y bydd oedi cyn cael deunydd yn Gymraeg. (paragraff 84)

Rydym yn **argymell** bod Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn gweithio'n agosach â'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. (paragraff 84)

Rydym yn **argymell** y dylid diweddarau'r feddalwedd adnabod llais a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi ar unwaith. Credwn hefyd y gellid sicrhau mwy o fesurau effeithlonrwydd drwy wneud defnydd mwy eang o'r feddalwedd hon ac felly rydym yn **argymell** y dylid gwneud defnydd mwy helaeth o'r feddalwedd wrth baratoi trawsgrifiadau o'r Cofnod. (paragraff 86)

Rydym yn **argymell** bod y Comisiwn yn ceisio cymorth cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y sain cyfieithu ar y pryd (Cymraeg i Saesneg) yn cael ei ddefnyddio fel y sail i'r gwaith golygu. (paragraff 87)

Rydym yn **argymell** y dylai'r Cynulliad weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu meddalwedd adnabod llais Gymraeg ymhellach a allai fod o gymorth sylweddol wrth baratoi pob dogfen ddwyieithog. (paragraff 88)

Rydym yn **argymell** y dylai pob gohebiaeth rhwng y Cynulliad a'r cyhoedd fod yn y ddwy iaith ac eithrio wrth ymateb i ohebiaeth gan aelodau unigol o'r cyhoedd neu sefydliadau unigol pryd y dylai'r ymateb adlewyrchu iaith yr ohebiaeth a dderbyniwyd. (paragraff 90)

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn sicrhau bod gan bob adran ddigon o staff i'w galluogi i ddarparu ei gwasanaethau i'r cyhoedd ac i Aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg heb ddibynnu gormod ar y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. (paragraff 91)

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth i wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarperir gan staff diogelwch, a hynny drwy hyfforddi staff presennol a recriwtio staff dwyieithog pan fydd swyddi'n dod yn wag. (paragraff 92)

Rydym yn **argymell** y dylid hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog er mwyn gwrthbwysu'r gred a'r disgwyliad presennol ymhlith rhai Aelodau a staff y Cynulliad na ellir darparu gwasanaethau yn Gymraeg yr un mor brydlon ag y gellir gwneud hynny yn Saesneg. (paragraff 93)

Rydym yn **argymell** y dylai fod gan bob aelod o staff rywfaent o sgiliau yn yr iaith Gymraeg neu dylai fod yn caffael rhywfaint o sgiliau. (paragraff 94)

Rydym yn **argymell** y dylid cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fwy helaeth a dwys, yn arbennig i staff newydd gan gynnwys y rheini a gaiff eu recriwtio o'r tu allan i Gymru. (paragraff 95)

Rydym yn **argymell** y dylai'r Cynulliad gynnal ymarfer meincnodi drwy gymharu ei hun â sefydliadau eraill yng Nghymru y mae ganddynt, ynghyd â'r Cynulliad, y gwasanaethau dwyieithog mwyaf datblygedig. (paragraff 96)

Rydym yn **argymell** y dylid cynnal ail ddadansoddiad trylwyr o'r swyddi y mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ac y dylid adlewyrchu hyn mewn hysbysebion. (paragraff 97)

Rydym yn **argymell** y dylid cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o hyfforddi Aelodau i addysgu staff fel bod y rheini sy'n cael gwersi Cymraeg yn gallu cyfrannu mwy at wasanaethau'r Cynulliad a ddarperir yn yr iaith Gymraeg. (paragraff 98)

Felly, rydym yn **argymell** y dylid ystyried creu swydd lefel uchel gyffredin i gydgyssylltu'r gwaith pwysig hwn yn well o safbwynt yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd, a hynny o ran sgiliau staff, amlwasgio a dyrannu adnoddau. Rydym yn **argymell** y dylid rhoi'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddwyieithrwydd (nid cyfieithu'n unig) i Gyfarwyddwr neu i Aelod o'r Bwrdd Rheoli ac y dylai'r person hwnnw weithredu fel "hyrwyddwr" dwyieithog. (paragraff 101)

Rydym yn **argymell** y dylai pob cyhoeddiad a deunydd cyhoeddus a gynhyrchir gan Aelodau ac a gaiff ei ariannu o gyllideb y Cynulliad, gan gynnwys penawdau llythyrau, manylion cyswllt a hysbysiadau ar gyfer cymorthfeydd, fod ar gael yn ddwyieithog yn unol ag ethos dwyieithog y Cynulliad. (paragraff 102)

Rydym yn **argymell** y byddai'n ddefnyddiol o ran datblygu dealltwriaeth pe bai crynodeb o gefndir datganoli a rôl y Cynulliad ar gael ar dudalen flaen y wefan mewn ieithoedd eraill a ddefnyddir yn gyffredinol gan y rheini sy'n byw yng Nghymru a'r rheini sy'n ymweld â'r Cynulliad. (paragraff 103)

Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn creu ac yn cyhoeddi canllawiau ar arfer gorau sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i grwpiau allanol pan fyddant yn cynnal digwyddiadau ar safleoedd y Cynulliad. (paragraff 104)

Aelodau'r Panel

Arwel Ellis Owen (Cadeirydd)

Mae ganddo brofiad helaeth o'r byd cyfathrebu fel Gyfarwyddwr a sylfaenydd y cwmni cyfathrebu, Cambrensis. Ef hefyd yw Cadeirydd Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru ac Islywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn fwyaf diweddar, fe'i penodwyd yn Gadeirydd Cyngor Gofal Cymru.

Sue Balsom

Sefydlodd ei chwmni cysylltiadau cyhoeddus, dylunio a chyhoeddi dwyieithog ei hun, FBA yn Aberystwyth ym 1989. Mae Mrs Balsom, yn gyn Gymraes y flwyddyn, wedi gwasanaethu ar fwrdd Awdurdod Datblygu Cymru, bwrdd Cyllid Cymru ac fel Is-gadeirydd Cyngor Darlledu'r BBC ar gyfer Cymru. Tan yn ddiweddar, hi oedd Cadeirydd Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru ac mae wedi cynrychioli Cymru ar Fwrdd Cynnwys OFCOM, y rheoleiddiwr telathrebu a darlledu yn y DU, ers 2003. Eleni, fe'i penodwyd yn Llysgennad ar gyfer amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus gan swyddfa'r Cabinet.

Geraint Evans

Ymgynghorwr manwerthu annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr cwmni eiddo masnachol Gorsedd Cyf, Cadeirydd Gwasg Prifysgol Cymru a Chadeirydd ar gwmni menter Business in Focus. Cyn hynny, bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr ar siop fanwerthu Dan Evans (Barry) Ltd. Bu hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar Associated Independent Store Ltd, y grŵp mwyaf yn y DU nad yw'n ymwneud â phrynu bwyd.

Yr Athro Colin Baker

Ar hyn o bryd, ef yw Dirprwy Is-ganghellor Prifysgol Bangor ac mae hefyd yn Athro Addysg yno. Mae'n awdur ar 15 o lyfrau a thros 50 o erthyglau ar ddwyieithrwydd ac addysg ddwyieithog, a chanddo ddiddordeb penodol ym maes cynllunio iaith ac addysg ddwyieithog. Mae'n Olygydd ar ddwy gyfres o lyfrau ac mae'n Olygydd ar yr International Journal of Bilingualism and Bilingual Education. Yn ogystal â'i weithgareddau academaidd, bu hefyd yn aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg am ddeng mlynedd.

Y Cylch gorchwyl

Bydd yr adolygwyr yn gwneud y canlynol:

a) ystyried sut y caiff yr holl wasanaethau dwyieithog presennol eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad, gan gynnwys datblygiadau mewn gwasanaethau dwyieithog ers sefydlu'r Comisiwn yn 2007, a'r cynigion a nodwyd yn natganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad ar 30 Medi 2009;

b) ystyried barn ein prif gwsmeriaid am ein gwasanaethau dwyieithog ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;

c) ystyried yr angen i sicrhau gwerth am arian, gan fanteisio ar arferion rhyngwladol gorau, i wneud argymhellion i'w hystyried gan Gomisiwn y Cynulliad ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad yn y dyfodol, gan gynnwys:

- cynnig opsiynau ar gyfer diffinio a chyflawni uchelgais y Cynulliad i fod yn "sefydliad gwirioneddol ddwyieithog";
- sefydlu egwyddorion a ddylai fod yn sail i'r agwedd at wasanaethau dwyieithog;
- ystyried pob math o wasanaeth, gan gynnwys er enghraifft, cyfryngau newydd a deunydd archif.

d) argymhell ffordd ymlaen i'r Pedwerydd Cynulliad a thu hwnt (bydd cyfnod y Cynllun Iaith presennol wedi dod i ben erbyn hynny).

“Datganiad Ysgrifenedig gan Gomisiwn y Cynulliad ar y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

30 Medi 2009 (cyfeirir ato ym mharagraff (a) o’r cylch gorchwyl)

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod heddiw rhwng Comisiynwyr y Cynulliad ac Aelodau’r Cynulliad oedd wedi llofnodi’r cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ar 21 Medi 2009.

Yn ystod y cyfarfod, trafodwyd penderfyniad diweddar y Comisiwn i gyhoeddi cyfieithiad o’r Saesneg i’r Gymraeg o gofnod trafodion y Cyfarfod Llawn o fewn 10 niwrnod yn hytrach na 24 awr ac, o’r wythnos hon ymlaen, i gychwyn cyfieithu trafodion pwyllgorau deddfwriaeth pan fyddant yn trafod Mesurau. Cytunwyd y dylid lleihau’r amser ar gyfer cyfieithu Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn i 3-5 niwrnod gwaith ac y bydd y mater yn ffurfio rhan o adolygiad llawn a thryloyw i edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd yr adolygiad yn dechrau cyn gynted â phosibl, yn cynnwys ymgynghori ag Aelodau, ac yn dod i ben erbyn diwedd mis Ionawr.

Cytunwyd hefyd y caiff unrhyw newidiadau mewn perthynas â’r trefniadau ar gyfer cyfieithu Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn a argymhellir yn dilyn yr adolygiad eu rhoi ar waith, ac yn ehangach, y bydd argymhellion yr adolygiad annibynnol yn ffurfio sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar sut y dylid diwygio Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fel rhan o system o ddatganoli gweithredol. Canlyniad hyn oedd bod y Cynulliad yn gallu gwneud deddfwriaeth ddirprwyedig a oedd gynt yn cael ei gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

2. Arweiniodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 at ffurfioli'r broses o wahanu pwerau a oedd wedi bod yn digwydd yn anffurfiol cyn hynny, yng nghyd-destun y pwerau cyfyngedig a ddatganolwyd o dan Ddeddf 1998. Yn bwysicach, roedd Deddf 2006 yn gyfrifol am ddatganoli pwerau deddfu mwy sylweddol i'r Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i wneud Mesurau (sydd yr un peth â Deddfau Seneddol) am bynciau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Ychwanegir at y pynciau hynny o dro i dro gan Ddeddfau Seneddol eraill a Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Un o'r gorchmynion diweddaraf i gael ei wneud oedd gorchymyn sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad ddeddfu ynghylch yr iaith Gymraeg.

3. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Cynhelir Cyfarfod Llawn y Cynulliad yn y ddwy iaith, a chaiff cyfraniadau yn y Gymraeg eu cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gyfer pobl nad ydynt yn deall yr iaith.

4. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Gynllun Iaith Gymraeg y cytunwyd arno gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2007. Caiff ei adolygu ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad a gaiff ei ethol yn 2011.

A Y CYD-DESTUN

A1 Cefndir

5. Caiff Cofnod y Trafodion ei gynhyrchu'n ddwyieithog ar hyn o bryd, gyda chyfieithiad llawn i'r Gymraeg o gyfraniadau Saesneg, yn ogystal â chyfieithiad i'r Saesneg o gyfraniadau Cymraeg. Dyma sydd wedi digwydd ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999. Yn wreiddiol roedd cyfieithiadau Cymraeg o gyfraniadau Saesneg ar gael ymhen pum niwrnod i'r cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol a'r cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg ond o 2005 ymlaen, roedd y rhain ar gael o fewn 24 awr.

6. Ar 7 Gorffennaf 2009, cafodd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-11 ei chymeradwyo gan Gomisiwn y Cynulliad. Roedd yn cynnwys arbediad o oddeutu £250,000 y flwyddyn a oedd yn deillio o newid yn y trefniadau ar gyfer cyfieithu Cofnod o Drafodion Cyfarfod Llawn y Cynulliad. Yr arfer hyd yma oedd cyhoeddi Cofnod a oedd yn cynnwys fersiynau o'r holl gyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg h.y. nid yn yr iaith a lefarwyd yn unig, ond cyfieithiad hefyd i'r iaith arall. Y cynnig oedd parhau i gofnodi'r hyn a ddywedwyd yn yr iaith a lefarwyd, a hefyd parhau i gyfieithu cyfraniadau Cymraeg i'r Saesneg, ond rhoi'r gorau i gyfieithu cyfraniadau Saesneg i'r Gymraeg.

7. Yn dilyn y cynnig hwn, cafwyd gwrthwynebiad gan sawl Aelod Cynulliad, a oedd nid yn unig yn gwrthwynebu'r penderfyniad ei hun, ond hefyd yr hyn a welwyd fel methiant i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ynghylch y cynnig. O ganlyniad i drafodaethau rhwng pedwar Aelod Cynulliad (un o bob plaid) a'r Comisiwn, daethpwyd i gyfaddawd, sef parhau i ddarparu cyfieithiadau llawn, ond gan ddychwelyd at yr arfer wreiddiol o baratoi'r cyfieithiad yn barod at gyfarfodydd yr wythnos a ganlyn, yn hytrach na'r diwrnod canlynol. Fel rhan o'r cyfaddawd, cytunwyd y byddai panel annibynnol yn cael ei

sefydlu i adolygu'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Comisiwn.

8. Nododd Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd benderfyniad gwreiddiol y Comisiwn a dechreuodd ohebu â'r Llywydd a'r Clerc. Tynnodd y Bwrdd sylw at y datganiad sydd yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad:

“Cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod, cyhoeddir cofnod gair-am-air dwyieithog o bob Cyfarfod Llawn, ynghyd â chofnod o bob cyfarfod Pwyllgor gyda chyfieithiad Saesneg o unrhyw gyfraniadau Cymraeg.”

9. Mae paragraff 6.10 o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi hefyd y bydd “y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio o fewn pedair blynedd iddo ddod yn weithredol”. Roedd yr ohebiaeth rhwng y Bwrdd a'r Cynulliad hefyd yn ymwneud â statws y Cynllun. Ymdrinnir â'r pwnc hwn yn fwy llawn ym mharagraffau 12-16 isod.

A2 Gwaith y Panel

10. O ganlyniad i'r cytundeb y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod, penodwyd y Panel presennol i gynnal ymchwiliad i wasanaethau dwyieithog y Cynulliad. Disgrifir aelodaeth y Panel ar dudalen 11 a'i gylch gorchwyl ar dudalen 12. Cyfarfu'r Panel ar y dyddiadau a ganlyn:

17 Rhagfyr 2009

15 Ionawr 2010

20 Ionawr 2010

5 Chwefror 2010

17 Chwefror 2010

19 Chwefror 2010 (yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

4 Mawrth 2010

5 Mawrth 2010

19 Mawrth 2010

30 Mawrth 2010

21 Ebrill 2010

Ac eithrio'r cyfarfod ar 19 Chwefror, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd. Yn ogystal, defnyddiwyd cyfleusterau fideo-gynadledda ym Mangor a Chaerdydd ar gyfer un o'r cyfarfodydd.

A3 Y cyd-destun deddfwriaethol

11. Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol gan **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** (Deddf 2006), fel corff sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a daeth Comisiwn y Cynulliad yn gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau ar ei gyfer. Mae'r darpariaethau manwl wedi'u cynnwys yn adrannau 26 a 27 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 2 i'r Ddeddf. At ddibenion y Panel, adran 35(1) o'r Ddeddf yw'r ddarpariaeth bwysig

“(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

Mae'r egwyddor hon hefyd wedi'i chynnwys ym mharagraff 8(3) o Atodlen 2 -

“(3) In the exercise of the functions of the Assembly Commission effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.”

12. Mae **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** (Deddf 1993) yn cyfeirio at yr un egwyddor, sydd fwyaf arwyddocaol yn adran 5, sy'n cynnwys y ddyletswydd i lunio Cynlluniau Iaith Gymraeg. Mae'r ddyletswydd honno'n gymwys i gyrrff a enwir yn adran 6 o Ddeddf 1993, neu orchmynion a wneir o dan y Ddeddf. Nid yw'r Cynulliad na'r Comisiwn wedi eu henwi yn y fan honno, felly ni fu dyletswydd ar y naill na'r llall, neu'r ddau ohonynt, i lunio Cynllun Iaith Gymraeg.

13. Mae adran 21 o Ddeddf 1993 yn disgrifio sut y mae'r darpariaethau sy'n dod o'i flaen yn y Ddeddf, ynglŷn â Chynlluniau Iaith Gymraeg, yn gymwys i bersonau sy'n gweithredu ar ran y Goron os byddant yn mabwysiadu Cynllun yn wirfoddol neu'n cynnig gwneud hynny. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Statws y Goron) (Rhif 2) 2007 yn darparu i Gomisiwn y Cynulliad gael ei drin fel corff y Goron at ddiben adran 21.

14. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad yn cynnwys y datganiad a ganlyn -

“Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn o dan adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg - ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 11 Gorffennaf 2007.”

15. Mae Adran 1.1 o'r Cynllun yn cynnwys yr esboniad a ganlyn -

“Er bod y Cynllun hwn yn berthnasol i'r Cynulliad, y Comisiwn fydd yn bennaf gyfrifol am ei roi ar waith. I osgoi camddealltwriaeth, cyfeirir at y Cynulliad yn unig weddill y ddogfen, oni bai fod angen gwahaniaethu rhwng gwahanol gyfrifoldebau.”

16. Effaith gyfreithiol y Cynllun oedd testun yr ohebiaeth rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad y cyfeirir ati ym mharagraff 9 o'r Adroddiad hwn. Nid oedd y Panel yn credu mai ei swyddogaeth oedd mynegi barn ar y penderfyniadau a wnaed bryd hynny. Yn hytrach, roedd am edrych i'r dyfodol a gwneud argymhellion, a hynny er mwyn sicrhau cynnydd ac arloesedd.

17. Mae **Mesur arfaethedig y Gymraeg** yn cynnwys cynigion a fyddai, mewn unrhyw achos, yn disodli'r system bresennol o

Gynlluniau Iaith Gymraeg â system o safonau. Cyflwynwyd y Mesur hwn ar 4 Mawrth 2010 ac mae Llywodraeth Cymru am iddo ddod yn gyfraith cyn diwedd tymor presennol y Cynulliad ym mis Ebrill 2011. Ni fwriedir i Gynulliad Cenedlaethol na'r Comisiwn gael eu henwi ar wyneb y Mesur fel cyrff y bydd y safonau'n gymwys iddynt, er bod darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus eraill gael eu hychwanegu drwy orchymyn y byddai angen i'r Cynulliad ei gymeradwyo.

18. Un o'r pryderon ynghylch y system bresennol yw bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg (sy'n monitro a yw'r Cynulliad yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg) yn atebol i Weinidogion Cymru sydd, yn eu tro, yn atebol i'r Cynulliad. Gallai hyn barhau o dan Fesur arfaethedig y Llywodraeth; byddai'r Comisiynydd yn cael ei benodi gan Brif Weinidog Cymru, sy'n atebol i'r Cynulliad.

19. Bydd darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru y cyfeirir atynt ym mharagraff 11 uchod, yn parhau i fod yn gymwys yn uniongyrchol i'r Cynulliad a'r Comisiwn, ac felly bydd yn rhoi cyd-destun cyfreithiol sy'n fwy uniongyrchol (a pharhaol) er mwyn gwneud ein hargymhellion. Er hynny, mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010 yn caniatáu i'r Cynulliad ddiwygio adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 drwy Fesur.

20. Awgrymwyd i'r Panel y gallai darpariaeth deddfwriaethol benodol gael ei chyflwyno mewn perthynas â'r modd y mae'r Cynulliad a'r Comisiwn yn defnyddio ieithoedd, fel sydd wedi digwydd mewn sefydliadau seneddol dramor, er enghraifft yng Nghanada. Gallai hyn fod yn ffordd o osgoi'r sefyllfa letchwith o ran atebolrwydd a amlinellir ym mharagraff 18 uchod. Fodd bynnag, nid yw darpariaethau deddfwriaethol manwl yn rhan o'r cylch gorchwyl penodol. Mae ein hargymhellion yn ymwneud â'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir, ac maent wedi'u llunio er mwyn galluogi'r Cynulliad a'r Comisiwn i

weithredu o fewn unrhyw fframwaith cyfreithiol sy'n gymwys, os bydd yr egwyddor sydd wedi'i chynnwys yn adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 yn parhau i fod yn gymwys.

A4 Mesur ar gyfer y Cynulliad?

21. Yn ystod y cyfnod o gasglu tystiolaeth, awgrymwyd y byddai'n briodol i'r Cynulliad basio Mesur i wneud darpariaeth ynghylch y defnydd o iaith yn y Cynulliad. Byddai hyn yn dilyn y Mesur ynghylch y Comisiynydd Safonau a'r Mesur ynghylch Taliadau Aelodau.

22. Mae Adran A3 o'r Adroddiad hwn yn amlinellu'r trefniadau statudol presennol. Nodir bod darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru yn gymwys yn uniongyrchol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Gomisiwn, ac felly'n fwy penodol na darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg, sy'n dibynnu ar gyfranogiad gwirfoddol. Mae'r egwyddor o ddeddfu'n uniongyrchol mewn perthynas â'r defnydd o iaith mewn deddfwrfa wedi cael ei defnyddio mewn gwledydd eraill, fel Iwerddon a Chanada, ac mae'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru.

23. Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010 yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar y materion a ganlyn -

"Mater 20.1 Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Mater 20.2 Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw)."

24. Mae Erthygl 4 o'r Gorchymyn hefyd yn rhoi caniatâd penodol i'r Cynulliad ddiwygio darpariaethau ieithyddol Deddf Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, ac yn ei gyd-destun presennol, adran 35(1) a pharagraff 8(3) o Atodlen 2 yn benodol.

25. Cafwyd tair prif ddadl o blaid cyflwyno Mesur i ddelio'n benodol â'r defnydd o ieithoedd gan y Cynulliad.

(i) Gellid cyflwyno Mesur i fodloni amgylchiadau penodol y Cynulliad yn gynt nag y byddai ceisio cymhwyso'r cynigion ym Mesur Iaith y Llywodraeth er mwyn bodloni'r amgylchiadau hynny. Byddai'r ail ddewis yn golygu aros i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth ar safonau; y Gweinidog i drafod yr adroddiad a phennu safonau; y Comisiynydd i ystyried pa safonau fyddai'n briodol, gan hysbysu Comisiwn y Cynulliad a thrafod pa gamau y byddai angen eu cymryd.

(ii) Ar hyn o bryd mae darpariaethau manwl yn ymwneud â'r defnydd o'r iaith wedi'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog. Gellir diwygio neu atal y rhain yn rhwydd. Byddai cynnwys y darpariaethau priodol mewn Mesur yn gwneud y darpariaethau hynny'n rhan annatod o'r Mesur ac yn rhoi statws uwch iddynt.

(iii) Byddai Mesur penodol i'r Cynulliad yn osgoi'r trefniadau anfoddhaol o ran atebolrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd - Comisiwn, drwy ei Gynllun Iaith Gymraeg, sy'n atebol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy'n atebol i Weinidog, sy'n atebol i'r Cynulliad. Byddai Mesur arfaethedig y Llywodraeth, pe byddai'n gymwys i'r Cynulliad, yn gymwys yn yr un ffordd, gyda safonau'n cael eu defnyddio yn lle Cynlluniau a'r Comisiynydd Iaith yn cymryd lle'r Bwrdd.

26. Mae argymhellion y Panel ynghylch y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i Gomisiwn wedi'u cynllunio i fod yn rhan o unrhyw fframwaith deddfwriaethol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau a roddwyd ar waith o ganlyniad i Fesur Iaith arfaethedig y Llywodraeth wedi'u datblygu'n ddigonol i ni fod yn siŵr o sut y byddant yn gymwys i'r Cynulliad a'i Gomisiwn.

27. Adolygodd y Panel dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig am y ddeddfwriaeth iaith sy'n gymwys mewn rhai deddfwrfeydd rhyngwladol dwyieithog. Mae gan rai seneddau ddeddfwriaeth sy'n delio'n benodol â gweithredu eu hethos dwyieithog. Efallai y gallai darpariaethau statudol tebyg gynnig sylfaen fwy cadarn ar gyfer darpariaeth iaith yn y Cynulliad na'r Rheolau Sefydlog sy'n bodoli ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fesur Iaith Gymraeg, a dechreuodd un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad ymgynghoriad cyhoeddus ar y Mesur drafft. Felly, penderfynwyd, o dan yr amgylchiadau, y dylem wneud cais i'r Comisiwn a'r Cynulliad nodi ein bod wedi ystyried y gwahanol opsiynau a nodwyd, wrth i'r Mesur Iaith fynd drwy'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus a chyfnodau eraill yn y Cynulliad.

28. Rydym yn credu ei bod hi'n werth ymchwilio ymhellach i rinweddau Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd), ond nid yw'n angenrheidiol i ni wneud unrhyw argymhellion penodol ynghylch y cyd-destun deddfwriaethol y caiff ein hargymhellion eu gweithredu ynddynt.

A5 Dwyieithrwydd mewn cyd-destunau rhyngwladol

29. Roedd cylch gorchwyl y Panel yn cyfeirio at arfer da yn rhyngwladol, ac er nad oedd yr amser a oedd ar gael yn ddigon i'w ganiatáu i wneud gwaith ymchwil manwl iawn, cafodd gymorth defnyddiol iawn gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau wrth nodi'r seneddau mewn awdurdodaethau eraill sydd â phrofiad o weithio mewn mwy nag un iaith. Nid oedd yr amgylchiadau yn union yr un peth â Chymru yn unrhyw un ohonynt, yn rhannol oherwydd bod gan y DU gyfansoddiad anysgrifenedig ac felly ni roddwyd y statws "iaith swyddogol" i unrhyw iaith. Ceir isod grynodedb o'r wybodaeth gefndir defnyddiol iawn a ystyriwyd

30. Mae seneddau dwyieithog ac amlieithog hirsefydlog yn cynnwys y Swistir a Chanada. Dechreuodd y naill ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym 1936 a'r llall ym 1946. Mae'r ddwy wladwriaeth yn ffederal iawn, ac mae lefel is-ffederal y llywodraeth yn adlewyrchu elfennau a ddiffinnir yn ieithyddol.

31. Mae Senedd Ffederal **Canada** a chynulliadau deddfwriaethol y rhanbarthau, i wahanol raddau, wedi mabwysiadu arferion dwyieithog o dan y ddeddf gyfansoddiadol wreiddiol, sef *Deddf Cyfansoddiad 1867* gan ddatblygu gwasanaethau dwyieithog ymhellach yn sgil yr agenda dwyieithog a deuddiwyllynnol a ddaeth i'r amlwg yn y 1960au ac a wireddwyd mewn deddfwriaeth iaith a'r cyfansoddiad newydd yn y 1980au.

32. Mewn cyferbyniad, mae **De Affrica** wedi bod yn datblygu darpariaeth bellach o ran y defnydd o'i 11 iaith swyddogol ar gyfer busnes seneddol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn annisgwyl efallai, Saesneg sydd wedi ei sefydlu ei hun fel iaith y cofnodion, sy'n adlewyrchu'r drafodaeth ehangach ynghylch cryfder cynyddol y Saesneg yn Ne Affrica, a hynny ar draul ieithoedd eraill, yn cynnwys

Afrikaans. Mae hwn hefyd yn benderfyniad pragmatig mewn gwlad amlieithog.

Mae llawer o'r arferion da mewn seneddau dwyieithog eisoes yn bodoli yn y Cynulliad, er enghraifft yr hawl i siarad yn y naill iaith neu'r llall, cofnod dwyieithog a chyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag, mae rhai nodweddion yng Nghymru yn wahanol i'r rheini a geir mewn deddfwrfeydd dwyieithog eraill:

- Pan wahanwyd y Cynulliad oddi wrth y Llywodraeth yn 2007, gwahanodd y gwasanaeth cyfieithu hefyd. Fodd bynnag, ymddengys fod rhai gwledydd eraill yn rhannu'r gwasanaeth cyfieithu rhwng y llywodraeth a'r ddeddfwrfa.
- Mae rhai deddfwrfeydd yn ffafrio adlewyrchu cydbwysedd ieithyddol yn swyddi'r Senedd, er enghraifft os yw'r Llefarydd yn dod o un grŵp ieithyddol, gall y dirprwy ddod o un arall. Mae rhai deddfwrfeydd, er enghraifft Senedd Canada, yn mynnu bod eu staff yn gwbl ddwyieithog.

33. Mae **Senedd yr Alban** wedi bod yn cyflogi Swyddog Datblygu Gaeleg ers 2000. Bellach, mae tri aelod o staff Gaeleg yno, sy'n canolbwyntio ar addysg a datblygu. Caiff y gwaith cyfieithu ei anfon yn allanol. Cynigir hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Aeleg i'r holl staff. Nod y cwrs undydd hwn yw sicrhau bod staff yn ymwybodol o bwysigrwydd yr iaith i'r Alban, yn arbennig yn sgil Deddf yr Iaith Aeleg a'r gofyniad statudol i gydymffurfio â nodau ac amcanion Cynllun Iaith Aeleg Senedd yr Alban. Yng ngweddill y Senedd, ar wahân i'r tri aelod o staff y cyfeirir atynt uchod, mae gan y gwasanaeth ymwelwyr un aelod o staff sy'n siarad Gaeleg, ac mae dau'n gweithio ar y Cofnod Swyddogol.

34. Yn **Iwerddon**, mae'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn cynnwys darpariaeth sy'n cadarnhau hawliau ieithyddol yn yr Oireachtas (adran 6). Mae gan aelodau'r Dáil a'r Seanad (sef dau dŷ'r Oireachtas) yr hawl

i ddefnyddio'r Wyddeleg neu'r Saesneg mewn dadleuon neu drafodion eraill yn y Dáil neu'r Seanad a/neu mewn unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor neu gydbwyllgor o'r Oireachtas. Mae gan unrhyw un sy'n ymddangos gerbron dau dŷ'r Oireachtas a/neu gerbron pwyllgorau, is-bwyllgorau neu gydbwyllgorau o'r Oireachtas yr hawl i ddefnyddio'r Wyddeleg neu'r Saesneg wrth gynnal ei fusnes. Rhaid i gofnodion swyddogol o'r dadleuon a'r trafodion eraill yn nau Dŷ'r Oireachtas gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Fodd bynnag, gellir cyhoeddi cyfraniadau eraill (boed yn rhai llafar neu ysgrifenedig) yn y naill iaith swyddogol neu'r llall yn unig. Mae system cyfieithu ar y pryd ar gael yn yr Oireachtas er mwyn sicrhau nad yw'r rhai nad ydynt yn gallu siarad yr Wyddeleg o dan anfantais pan siaredir yr iaith. Fodd bynnag, er gwaethaf statws yr Wyddeleg fel iaith "genedlaethol", nid yw wedi ei defnyddio'n eang yn yr Oireachtas. Yn wir, nododd un sylwebydd nad yw erioed wedi ennill mwy na "statws seremonïol" at ddiben hunaniaeth y Gwyddelod.

35. Ystyrir Senedd Ffederal **Canada** fel y ddeddfwrfa ddwyieithog fwyaf trylwyr yn y byd. Gwneir darpariaethau ar gyfer deddfwrfa ddwyieithog yng Nghanada yn *Neddf Cyfansoddiad 1867* ("Deddf 1867"), Siarter Hawliau a Rhyddid Canada ("y Cyfansoddiad") a *Deddf Ieithoedd Swyddogol 1988*.

Trafodaethau

Mae Deddf 1867 yn gwarantu'n benodol hawl seneddwyr i ddefnyddio'r Saesneg neu'r Ffrangeg mewn trafodaethau seneddol. Cyflwynwyd system o gyfieithu ar y pryd ym 1959. Mae gan Swyddfa Gyfieithu'r Senedd tua 50 o gyfieithwyr ar y pryd parhaol, ac mae'n defnyddio 20 o gyfieithwyr ar y pryd llawrydd yn rheolaidd. Cyfieithir ar y pryd i'r naill iaith a'r llall.

Y Cofnod

Mae adran 133 hefyd yn datgan bod yn rhaid paratoi cofnodion yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r rheidrwydd hwn ynghylch dwyieithrwydd

yn rhagdybio bod y dogfennau seneddol hynny'n cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Rhaid i'r dogfennau llawn fod ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Cyn 1976, roedd y cofnodion yn cael eu hargraffu mewn fersiynau Saesneg a Ffrangeg ar wahân. Ers ail sesiwn y degfed Senedd ar hugain, cawsant eu hargraffu'n ddwyieithog ar fformat dwy golofn.

Deddfwriaeth

Er bod holl ddeddfwriaeth y Llywodraeth yn cael ei drafftio'n ddwyieithog, nid oes gan y Senedd na Thŷ'r Cyffredin ddigon o adnoddau i ddarparu'r un cyfleusterau ar gyfer deddfwriaeth Aelodau unigol. Ar y llaw arall, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer nifer is o ddeddfwriaeth Aelodau unigol.

Pwyllgorau

Ar ddechrau pob sesiwn seneddol, bydd nifer o bwyllgorau'n pasio cynigion sy'n datgan na chaiff dogfennau sy'n cael eu cyflwyno gan dystion eu dosbarthu nes y byddant ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r math hwn o gynig yn dangos y gwrthdaro posibl rhwng hawl seneddwr i gael dogfennau yn eu dewis iaith a hawl y tystion i ddefnyddio'r Saesneg neu'r Ffrangeg wrth gysylltu â'r Senedd.

Staffio

Mae holl staff y Senedd yn ddwyieithog. Nid oes problem wrth recriwtio staff dwyieithog.

Cyfathrebu

Bydd holl Aelodau a staff y Senedd yn dewis iaith gyntaf er mwyn gosod y cyfrifiaduron fel eu bod yn darparu dogfennau yn yr iaith honno.

Mae gwefan y Senedd yn gwbl ddwyieithog, ar wahân i ddeunydd o gynadleddau i'r wasg a gynhelir gan sefydliadau eraill nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r Llywodraeth. Yn ymarferol, mae'r

holl ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog, yn cynnwys rhai'r gwrthbleidiau, ar wahân i'r Bloc Quebecois, sy'n eu cyhoeddi yn Ffrangeg yn unig. Mae Papurau Ymchwil y Senedd yn gwbl ddwyieithog.

36. Catalaneg yw iaith swyddogol **Catalonia**, ynghyd â Sbaeneg, sy'n iaith swyddogol drwy holl wladwriaeth Sbaen. Mae'r Ddeddf Iaith (1983) a gafodd ei chefnogi gan bob plaid wleidyddol yn Senedd Catalonia yn datgan bod cydnabod Catalaneg fel iaith Catalonia yn hawl sylfaenol ac yn ddyletswydd a fydd gan bobl Catalonia bob amser. Siaredir Catalaneg gan tua deng miliwn o bobl (ond nid ydynt i gyd yn byw yn rhanbarth awtonomaidd Catalonia). Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Catalaneg yn ddwyieithog (o leiaf).

Mae gan yr Aelodau Seneddol ryddid i ddefnyddio'r naill neu'r llall o ieithoedd swyddogol Senedd Catalonia, ond gwneir llawer mwy o ddefnydd o'r Gatalaneg. Caiff yr holl Fesurau a'r cynigion eu cyflwyno'n Gatalaneg a phan gaiff Mesur ei basio, caiff ei gyfieithu i'r Sbaeneg gan wasanaeth ieithyddol y Senedd a'i anfon at y newyddiadur Sbaeneg swyddogol a'r argraffiad Sbaeneg o'r newyddiadur Catalaneg i'w gyhoeddi. Mae gwybodaeth ar y wefan ar gael yn Sbaeneg ac yn Gatalaneg. Mae Senedd Catalonia yn defnyddio'r Gatalaneg bron yn gyfan gwbl ar gyfer cyfathrebu'n llafar ac yn ysgrifenedig.

Mae Gwasanaeth Cynghori Iaith Senedd Catalonia yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal safon deddfwriaeth. Ynghyd â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, mae'n goruchwyllo'r gwaith o sicrhau bod testunau Mesurau'n cyfateb â'i gilydd. Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n sefyll profion i weithio i'r gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth fod yn rhugl mewn Catalaneg, yn unol â chyfraith 17/1985 ar swyddi cyhoeddus yng ngweinyddiaeth y Generalitat (y Llywodraeth).

37. Yn yr un modd ag yng Nghatalonia, iaith **Gwlad y Basg (Euskera)** yw'r iaith safonol ochr yn ochr â Sbaeneg. Mae Erthygl 6 o'r Statud Ymreolaeth yn nodi:

“**Article 6.-I.** «Euskera», the language of the Basque People, shall, like Spanish, have the status of an official language in Euskadi. All its inhabitants have the right to know and use both languages.

2.The common institutions of the Autonomous Community, taking into account the socio-linguistic diversity of the Basque Country, shall guarantee the use of both languages, controlling their official status, and shall effect and regulate whatever measures and means are necessary to ensure knowledge of them.

3.No-one may suffer discrimination for reasons of language.

4.The Royal Academy of the Basque Language is the official advisory institution in matters regarding Euskera.”

Mae gan ddinasyddion hawl gyfreithiol i ddefnyddio Basgeg ar lafar neu'n ysgrifenedig wrth ymdrin â'r weinyddiaeth neu ag unrhyw gorff swyddogol arall.

Mae Archddyfarniad Brenhinol 2568/1986 yn darparu y ceir cynnal trafodaethau senedd y Cymunedau Ymreolaethol yn Sbaen yn Sbaeneg neu yn yr iaith gyd-swyddogol a bydd yr holl gofnodion a'r penderfyniadau yn ddwyieithog. Yn ôl Rheolau Senedd Gwlad y Basg ar 22 Chwefror 1983:

“Euskera and Castilian shall be the official languages of the Basque Parliament, and either language may be used without distinction. Official parliamentary publications shall be bilingual.”

Defnyddir y Fasgeg tua 20 y cant mewn trafodaethau. Darperir gwasanaethau cyfieithu.

A6 Gwasanaethau presennol y Cynulliad Cenedlaethol

38. Mae manylion helaeth ynghylch y gwasanaethau dwyieithog a gaiff eu darparu i'r cyhoedd ar gael yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad, a ddaeth i rym ar 11 Gorffennaf 2007. Felly, nid oes angen eu hailadrodd yma, ond er cyfleustra, glynir yma wrth y strwythur a fabwysiadwyd gan y Cynllun. Yn yr Adran hon, crynhoir y dystiolaeth a ddaeth i law yn y meysydd hynny lle nad yw'r Panel wedi cynnig argymhellion.

39. Clywodd y Panel lawer o dystiolaeth yn ymwneud â Chynllunio a Darparu Gwasanaethau (Rhan 3 o'r Cynllun). Mae'n mynd i'r afael â'r maes hwn, felly, yn Adran B4 o'r Adroddiad hwn.

40. Mae Rhan 4 o'r Cynllun yn canolbwyntio ar sut y mae'r Cynulliad yn ymdrin â siaradwyr Cymraeg. Ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i law a oedd yn awgrymu bod y Cynulliad yn cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd mewn iaith heblaw eu dewis iaith, neu'n gwrthddweud y ffaith ei fod yn cyfathrebu'n ddwyieithog, ar wahân i alwadau ffôn sy'n dod i mewn, fel y nodwyd ym mharagraff 96 isod. Yn yr un modd, dengys tystiolaeth fod y Cynulliad yn ymdrin â'r cyhoedd yn rhagorol wrth gynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu wrth fynd i gynadleddau a digwyddiadau fel sioeau ac eisteddfodau. Gwnaeth ymdrechion y tîm cyfathrebu allanol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ym mhob rhan o Gymru, a hynny drwy ei raglen allgymorth, argraff dda arnom, ynghyd â'n profiadau personol o waith y tîm gwasanaethau ymwelwyr a'r tîm addysg. Cyfeirir at y defnydd o'r rhyngrwyd yn Adran nesaf yr Adroddiad hwn. Fodd bynnag, un o'n prif bryderon yn y Rhan hwn o'r Cynllun yw proffil iaith gwasanaeth diogelwch y Cynulliad. Ymdrinnir â'r mater hwn ym mharagraff 92 o'r Adroddiad hwn.

41. Mae paragraff 4.8 o'r Cynllun yn ymwneud â thrafodion Cyfarfod Llawn a phwyllgorau'r Cynulliad. Ar wahân i groesgyfeiriadau at

Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheolau Sefydlog y Cynulliad, mae'r paragraff hwn yn cyfeirio at ddau fater. Y cyntaf yw darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer areithiau a wneir yn y Gymraeg. Caiff y gwasanaeth hwn ei ystyried yn wasanaeth enghreifftiol. Gellir ategu'r farn honno gan ein bod wedi defnyddio gwasanaethau'r tîm yn ystod ein cyfarfodydd. Y mater arall y cyfeirir ato yn yr Adran hon o'r Cynllun yw'r Cofnod, sef y mater a arweiniodd at sefydlu'r Panel hwn. Ymdrinnir â'r mater hwn yn Adran B1 o'r Adroddiad hwn.

42. Mae Rhan 5 o'r Cynllun yn ymdrin â "Delwedd Gyhoeddus" y Cynulliad. Ymddengys fod y rhan fwyaf o'r elfennau yn y Rhan hon o'r Cynllun yn gweithredu'n foddhaol. Serch hynny, mae'r Panel yn mynd i'r afael isod â dau fater. Mae'r cyntaf yn eithriad i'r egwyddor cyffredinol bod dogfennau ar gael yn ddwyieithog, ac ymdrinnir â'r mater hwn yn Adran 49 isod. Mae'r ail yn ymwneud â chyhoeddi datganiadau i'r wasg yn y ddwy iaith ar yr un pryd, ac ymdrinnir â'r mater hwn yn Adran 90 isod.

43. Ymdrinnir â threfniadau gweinyddol yn Rhan 6 o'r Cynllun. Rydym fel Panel yn pryderu ynglŷn â threfniadau staffio a hyfforddi, a chynigir argymhellion yn eu cylch yn Adran B4 o'r Adroddiad hwn. Mae paragraff 6.5 o'r Cynllun yn ymdrin yn fyr â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Ystyrir TGCh yn rhan ganolog o'r broses o ddatblygu gwasanaethau dwyieithog, ac ymdrinnir â'r mater yn fanwl yn Adrannau A6 ac A7 isod.

44. Yn olaf, nodwn fod y Cynllun yn ymdrin yn bennaf â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae staff y Comisiwn hefyd yn darparu gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad ac i'w gilydd. Mae hwyluso'r modd y darperir y gwasanaethau hynny'n ddwyieithog wedi bod yn rhan bwysig o drafodaethau'r Panel.

A7 Y cyd-destun technolegol

45. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ceisio arwain y ffordd o ran defnyddio technoleg i ddarparu gwasanaethau seneddol, ac rydym yn cytuno â'r farn hon. Yn wir, mae llawer o gyrff seneddol eraill wedi ymweld â'r Cynulliad ar sawl achlysur er mwyn gweld sut y mae'n gweithredu, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg yn y Siambr i ddarparu gwybodaeth i Aelodau ac i gofnodi pleidleisiau. Mae'r defnydd a wneir o dechnoleg i ddarparu gwasanaethau dwyieithog wedi bod yn un o brif ddiddordebau'r ymwelwyr hyn.

46. Ers y cychwyn cyntaf, mae'r Cofnod wedi cael ei gyhoeddi ar-lein. Ni chyhoeddwyd y Cofnod erioed ar gopi caled yn yr un modd â Hansard, ond mae fersiwn hwylus i'w hargraffu ar gael ar wefan y Cynulliad, fel y gall unrhyw un sydd angen copi caled ei hargraffu'n hawdd. Mae fersiwn gwbl ddwyieithog, colofn ddeuol o Gofnod y Cyfarfod Llawn wedi bod ar gael ers dechrau'r Cynulliad.

47. Yn ystod y Trydydd Cynulliad, manteisiwyd ar ddatblygiadau technolegol pellach er mwyn galluogi'r cyhoedd i wylïo'r Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor ar-lein, drwy senedd.tv. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn ddwyieithog. Gellir clywed yr iaith wreiddiol a siaredir, neu'r fersiwn sy'n cynnwys y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir yn ystod y cyfarfod. Mae'r Cynulliad yn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth yn haws ei ddefnyddio, o ran dilyn pwnc neu siaradwr penodol. Ategir y gwasanaeth hwn erbyn hyn gan ddarllediadau ar S4C yn hwyr yn y nos a gwasanaeth Democratiaeth Fyw y BBC.

48. Mae penderfyniadau'r Cynulliad a'i bwyllgorau hefyd ar gael ar ffurf fwy cryno. Cyhoeddir penderfyniadau'r Cyfarfod Llawn fel "Pleidleisiau a Thrafodion", a defnyddir cofnodion ffurfiol i gofnodi

penderfyniadau'r pwyllgorau. Mae'r manylion hyn hefyd ar gael yn ddwyieithog ar wefan y Cynulliad.

49. Mae bron pob dogfen sydd ar wefan y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi dau eithriad. Y cyntaf yw'r dystiolaeth uniaith a gyflwynir gan sefydliadau allanol ond nododd y Panel fod y Cynulliad yn cyfieithu dystiolaeth a gyflwynir yn uniaith Gymraeg gan dystion unigol er mwyn sicrhau bod yr Aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gallu'i deall. Disgwylir i sefydliadau y mae ganddynt eu Cynllun Iaith eu hunain ddarparu dystiolaeth ddwyieithog. Yr ail (sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.5 o'r Cynllun) yw dogfennau nad ydynt yn cael eu drafftio'n bennaf ar gyfer y cyhoedd. Yn gyffredinol, dogfennau a baratoir gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau er gwybodaeth yr Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad yw'r rheini. Gan mai er cyfleustra yn unig y cânt eu cyhoeddi ar y wefan, golyga mai dim ond yn Saesneg y maent wedi bod ar gael hyd yn hyn.

50. Yn ogystal â gwefan y Cynulliad, mae'r Aelodau, eu staff a staff y Cynulliad hefyd yn defnyddio mewnrwyd y Cynulliad. Hwn yw'r prif ddull o rannu gwybodaeth ymhlith staff y Cynulliad. Er nad yw'r fewnrwyd yn gwbl ddwyieithog, mae'r gyfran o'i chynnwys sydd ar gael yn Gymraeg yn cynyddu'n raddol.

51. Fel y nodir uchod, mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi bod ar gael ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor y Cynulliad ers y dechrau. Darperir y gwasanaeth hefyd ar gyfer cyfarfodydd o holl staff y Cynulliad, yn ogystal â chyfarfodydd tîm, os oes cyfieithwyr ar y pryd ar gael. Cynigir y gwasanaeth hefyd ar gyfer cyfarfodydd grwpiau pleidiau yn y Cynulliad; un blaid sy'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

52. Defnyddir meddalwedd adnabod llais er mwyn cynorthwyo'r broses o gyhoeddi'r Cofnod. Fe'i defnyddir gan olygyddion sy'n

gwrando ar drafodion y Cynulliad ac yn ailadrodd y cynnwys i'r peiriant. Yn y modd hwn, mae meddalwedd personol pob golygydd yn dod yn gyfarwydd â llais y golygydd. Y prif reswm dros ei gyflwyno oedd lleihau'r risg o ddioddef anaf straen ailadroddus yn hytrach na chyflymu'r broses o gofnodi. Fodd bynnag, wrth i gof y cyfrifiadur a chyflymder y broses gynyddu, mae trosi lleferydd i destun wedi dod yn gyflym ac yn gymharol effeithlon. Mae'r Panel yn mynd i'r afael â chyfleoedd newydd ar gyfer defnyddio meddalwedd adnabod llais ym mharagraffau 59-60.

53. Yn y maes gwefannau rhwydweithio cymdeithasol y cafwyd y datblygiadau mwyaf diweddar yn yr adran Cyfathrebu Allanol. Mae'r Cynulliad i'w weld ar Facebook, YouTube, Flickr, Wordpress a Twitter, ond mae'r camau hyn yn rhai cychwynnol. Mae'r deunydd gwreiddiol a gyfrannir gan y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog. Wrth ymateb i ymholiadau, bydd y Cynulliad yn defnyddio'r iaith a geir yn yr ymholiad. Mae'r Panel yn croesawu ymateb brwdfrydig y Cynulliad i gyfleoedd o'r fath i gysylltu â phobl Cymru yn arbennig y defnyddwyr ifanc.

A8 Tuag at ddyfodol digidol

54. Mewn rhannau eraill o'r Adroddiad hwn, amlinellir sut y gall defnyddio technoleg bresennol helpu'r modd y darperir gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad ac i bobl Cymru. Mae'r Oes Ddigidol yn rhan gynyddol bwysig o'n bywydau, gyda thechnoleg yn datblygu'n gyflym. Mae newidiadau wrth recordio digwyddiadau yn weledol ac yn glywedol (ee manylder uwch) wedi dod law yn llaw â storio ar galedwedd sy'n dod yn gynyddol llai mewn maint. Ni chaiff recordiadau cynt eu colli. Er bod fformatau ar gyfer recordio, golygu a storio yn newid, mae symud cyfieithiadau o un fformat i'r llall yn gymharol hawdd.

55. Yn ogystal, mae gwybodaeth ddigidol ar gael fwyfwy, ac mae'r ffaith bod senedd.tv ar gael ar y we fyd-eang, drwy fand eang sy'n cyflymu drwy'r amser, yn brawf o hynny. Hefyd, mae S4C wedi dechrau darlledu sesiynau'r Cynulliad Cenedlaethol (Y Dydd yn y Cynulliad - The Day at The Assembly) am chwe awr bob nos am dri diwrnod o'r wythnos. Clywodd y Panel gan dystion fod datblygiadau technolegol yn debygol o sicrhau bod cofnodion y Cynulliad Cenedlaethol ar gael hyd yn oed yn ehangach, er enghraifft, drwy dderbyn cofnodion digidol (testun gweledol, clywedol) ar ffonau symudol.

56. Un maes sydd wedi newid yn gyflym yn yr Oes Ddigidol yn ddiweddar yw'r twf a'r defnydd esbonyddol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Mae'r Cynulliad wedi ymateb yn gyflym ac mewn ffordd briodol drwy sicrhau ei fod ar Facebook, YouTube, Flickr, Wordpress a Twitter. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ei fod yn cysylltu â dinasyddion iau y mae mathau digidol o ryngweithio â sefydliadau ac unigolion yn gynyddol cyffredin a phoblogaidd. Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu ei ddulliau cyfathrebu â dinasyddion o bob oed sy'n defnyddio safleoedd rhyngweithio cymdeithasol fel ffordd o wrando ar bleidleiswyr, hyrwyddo dadl

agored a deall anghenion y cyhoedd sy'n defnyddio fforymau ac yn cyfnewid gwybodaeth drwy gyfryngau o'r fath fwyfwy.

57. Mae'r Panel yn llongyfarch y Cynulliad Cenedlaethol am wella ei safle rhyngwladol yn barhaus fel senedd sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf. Fodd bynnag, nid oes gan y Panel yr arbenigedd i ymchwilio i'r amrywiaeth o ddatblygiadau technolegol a allai wella'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu yn ystod y degawd nesaf. Felly, rydym yn **argymell** bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut y gallai datblygiadau disgwylidig yn y maes technoleg wella dwyieithrwydd yn ei waith drwy gynnal ymgynghoriad mwy manwl ac arbenigol.

58. Mae technoleg yn cynnig llawer i'r dyfodol, ond mae'n anochel y bydd rhai meysydd yn datblygu'n arafach. Er enghraifft, honnir bod meddalwedd adnabod llais ar hyn o bryd rhwng 95% a 99% yn gywir wrth drawsgrifio lleferydd i destun yn yr iaith Saesneg.

59. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau'n bodoli yn y maes trawsgrifio lleferydd i destun ar hyn o bryd. Yn gyntaf, nid yw trawsgrifio o sain Cymraeg i destun Cymraeg yn bosibl ar hyn o bryd ac eithrio pan geir set fach iawn o eirfa (fel gyda systemau ateb ffôn). Yn ail, mae angen i'r siaradwr hyfforddi'r feddalwedd i adnabod ei oslef a'i batrymau siarad. Mae diffyg cywirdeb yn deillio o ddiffyg defnydd o'r feddalwedd adnabod llais. Er enghraifft, ni fyddai'r feddalwedd yn debygol o fod yn gywir iawn gyda llais dinasyddion yn rhoi tystiolaeth i bwyllgor oherwydd ni fyddai'n adnabod eu lleisiau. Yn drydydd, mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Panel yn awgrymu y byddai meddalwedd o'r fath ond yn gweithio mewn grwpiau bach ac nid mewn sesiynau mawr fel yn y Cyfarfod Llawn.

60. Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn parhau i adolygu datblygiadau o'r fath, er mwyn manteisio ar feddalwedd

amlddefnyddiwr cyn gynted ag y bo wedi'i datblygu'n ddigonol i gael ei defnyddio'n effeithlon. Credwn ei fod yn debygol y bydd yn berthnasol i'r niferoedd llai mewn cyfarfodydd pwyllgor cyn y bydd yn addas i'w defnyddio yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg hefyd yn darparu cyd-destun ar gyfer defnyddio meddalwedd adnabod llais. Yna, byddai modd cynhyrchu testunau yn syth ond byddai angen eu golygu ychydig wedyn.

B YSTYRIAETHAU AC ARGYMHELLION Y PANEL

61. Mae ein hargymhellion wedi'u seilio ar yr egwyddorion a ganlyn:

(1) Hyrwyddo dinasyddiaeth a rhoi mwy o gyfle i bleidleiswyr gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd;

(2) Trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal cyhyd ag y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

B1 Y Cofnod

62. Buom yn ystyried y Cofnod, fel y cofnod ffurfiol o drafodion y Cyfarfod Llawn, a thrawsgrifiadau cyfatebol cyfarfodydd pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ofalus ac yn helaeth. Canolbwyntiodd llawer o'n trafodaethau ar yr egwyddorion sy'n diffinio beth yw 'gwir' gofnod, nid o'r hyn a ddywedir mewn trafodaethau yn unig ond hefyd sut a ble y caiff ei gadw ar gyfer y dyfodol.

63. Yn benodol, buom yn ystyried natur ddigidol arloesol cofnodion y Cynulliad a sut y caiff cofnod clyweledol llawn o drafodion ei gadw a sut y sicrhair ei fod ar gael. Mae hyn yn cyferbynnu â fersiwn bapur, testun yn unig, er enghraifft fel y bu'r achos yn hanesyddol gyda'r Hansard argraffedig, sef cofnod Seneddol San Steffan.

64. Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Cofnod y Trafodion y Cynulliad yn cynnwys y tair elfen a ganlyn:

1. Yn gyntaf, mae yna gofnod clyweledol o drafodion sydd ar gael yn fyw ac a gaiff ei archifo o fewn 24 awr fel cofnod digidol sydd ar gael ar wefan y Cynulliad:

Senedd.tv

2. Yn ail, hefyd o fewn 24 awr, darperir trawsgrifiad gair am air (yn yr iaith wreiddiol gyda chyfieithiad ar y pryd o gyfraniadau o'r Gymraeg i'r Saesneg). Yna, caiff y testun hwn ei addasu (o fewn 5 diwrnod) i gynnwys cyfieithiad o gyfraniadau yn yr iaith Saesneg i'r Gymraeg er mwyn rhoi fersiwn Gymraeg. Gellir gweld enghraifft yn:

[Cofnod y Trafodion, 23 Mawrth 2010](#)

3. Yn drydydd, caiff y trafodion eu crynhoi yn y "Pleidleisiau a Thrafodion" ar gyfer Cyfarfod Llawn y Cynulliad. Gellir gweld enghraifft yn:

[Pleidleisiau a Thrafodion, 23 Mawrth 2010](#)

Mae senedd.tv hefyd yn cynnwys cofnod clyweledol o gyfarfodydd pwyllgor. Ceir hefyd drawsgrifiad ysgrifenedig a chofnodion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cynulliad, a gellir gweld enghraifft o'r rhain yn:

[Cofnodion y Pwyllgor Menter a Dysgu, 18 Mawrth 2010](#)

Rydym wedi adolygu pob un o'r rhain a sut y maent yn diwallu anghenion dinasyddion.

65. Daethom i'r casgliad mai'r cofnodion dilys o drafodion, yn ei hanfod, yw'r cofnod clyweledol cyflawn yn gyntaf, a'r trawsgrifiadau cyhoeddedig o'r hyn a ddywedwyd, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn Siambr y Senedd neu'r ystafell bwyllgora yn ail. Mae'r rhain yn cynnwys y fersiwn glywedol a'r cofnod testun o'r cyfieithu ar y pryd y byddai Aelodau a'r cyhoedd yn ei glywed (os ydynt yn dewis gwneud hynny) yn ystod sesiwn fyw.

66. Yna, buom yn ystyried a ddylai'r cofnod dilys hwn barhau i gael ei gyfieithu er mwyn sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael o'r gyfraniadau Saesneg. Penderfynwyd y byddai gwneud hynny, mewn gwirionedd, yn ddehongliad o'r cofnod dilys o'r gwir drafodion.

67. Byddai Cofnod wedi'i gyfieithu'n llawn yn ddymunol gan rai. Fodd bynnag, mae ein hargymhellion yn adlewyrchu'r angen i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Maent hefyd yn ystyried pa mor ddymunol fyddai i gynyddu gwariant ar weithgareddau eraill a gynlluniwyd i gynyddu'r defnydd ymarferol a wneir o'r Gymraeg yn y Cynulliad o ddydd i ddydd, ac yn arbennig y rheini sy'n cynyddu ymwybyddiaeth y dinesydd a'r cyfleoedd sydd ar gael iddo gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad. Credwn nad y darpariaethau presennol yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion dinasyddion fel defnyddwyr posibl.

68. Felly, rydym yn **argymell** bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith / ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o'r cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, fel y'i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd. Deallwn mai hwn yw'r arfer eisoes gyda chyfarfodydd pwyllgor a'i fod yn ddull a dderbynnir yn gyffredinol. Credwn y gellid defnyddio'r adnoddau a ryddheir drwy beidio â chyfieithu'r Cofnod i ddatblygu a golygu cofnod newydd, dwyieithog sy'n fwy cyfeillgar i'r dinesydd. Trafodwn hwn isod.

69. O gofio pwerau deddfu newydd y Cynulliad, trafodwyd y ddadl benodol dros gael cyfieithiad llawn o drafodion sy'n ymdrin â gwneud deddfwriaeth ddwyieithog. Y ddadl dros wneud hyn oedd y byddai'n hwyluso'i defnydd o ran dehongliad statudol ac yn helpu i ddatblygu terminoleg gyfreithiol yn Gymraeg. Nid oeddem yn argyhoeddedig ynghylch y ddadl hon o gofio'r egwyddor ynghylch y cofnod dilys, gair am air ond rydym yn **cyngori'r** Comisiwn i barhau i adolygu'r posibilrwydd hwn. Yn benodol, dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu cofnod digidol dwyieithog llawn o bob trafodaeth ddeddfwriaethol, a hynny drwy'r cofnod clyweledol a thestun. Rydym wedi nodi y caiff holl

ddeddfwriaeth Cymru, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ei gwneud yn ddwyieithog.

B2 Cofnod y Werin

70. Buom yn ystyried y ffyrdd y gellir gwneud y Cofnod yn fwy hygyrch i aelodau'r cyhoedd, a hynny mewn ffordd sy'n ddefnyddiol iddynt hwy a pha mor hawdd ydyw iddynt, fel dinasyddion, ddod o hyd i'r materion sydd o bwys iddynt hwy a'u cymunedau. Daethom i'r casgliad nad yw'r cyfleuster clyweledol na'r trawsgrifiadau llawn yn arbennig o hawdd eu defnyddio a gwerth cyfyng iawn sydd i'r "Pleidleisiau a Thrafodion" ar gyfer defnyddio'r Cofnod.

71. Rydym yn **argymell** mai senedd.tv ddylai fod y prif gofnod cynhwysfawr a gedwir ar gyfer ymchwilyr a haneswyr yn y dyfodol. Mae Cofnod gweledol/clywedol yn cynnwys dulliau cyfathrebu llafar a dulliau aneiriol (ee goslef ac iaith y corff) ac felly mae'n gofnod mwy cynhwysol, cyflawn a dilys o'r trafodion fel yr oeddent yn digwydd. I Aelodau'r Cynulliad sydd am ddyfynnu'n gywir o araith flaenorol, ac i ymchwilyr a haneswyr, y cofnod mwyaf dilys a chywir yw'r cofnod gweledol a chlywedol, yn ogystal â'r cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg wrth iddo ddigwydd yn ystod y trafodion. Dylid sicrhau bod trawsgrifiad llawn o'r cyfraniadau llafar hynny yn parhau i fod ar gael i'r rheini sy'n ffafrio darllen yr hyn a ddywedwyd.

72. Ar y llaw arall, efallai na fydd dinesydd am weld y trawsgrifiad llawn yn syth, gan fod hwn yn am yn fanwl iawn, yn hir, ac weithiau'n ailadroddus ac nid yw'r prif faterion bob amser yn amlwg yn syth. Mae'r Cofnod llawn hefyd yn cynnwys trafodaethau gweithdrefnol nad ydynt o reidrwydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd, nid oes cysylltiad rhwng y crynodeb o'r "Pleidleisiau a Thrafodion" a'r Cofnod. Rydym yn credu bod yma gyfle gwych i fuddsoddi yn y dyfodol drwy wella'r ffordd y caiff y Cofnod ei ddefnyddio a hwyluso'r broses i ddinasyddion ddod o hyd i faterion penodol.

73. Felly, rydym yn **argymell** y dylid datblygu'r "Pleidleisiau a Thrafodion" a chofnodion y pwyllgorau i fod yn gyfleuster sy'n fwy cyfeillgar i'r dinesydd a fydd, yn ei dro, yn cyfrannu mwy at ddemocratiaeth agored. Rydym yn **argymell** bod gennym yr hyn a elwir yn "Gofnod y Werin" sy'n gwbl ddwyieithog. Byddai'r Cofnod hwn yn cynnwys rhestr o siaradwyr, y penderfyniad a wnaed a rhestr o'r materion a drafodwyd mewn modd sy'n niwtral yn wleidyddol a byddai ar gael erbyn diwedd y diwrnod a ganlyn.

74. Yng "Nghofnod y Werin", bydd yn hanfodol cael linc o enwau'r siaradwyr a'r rhestr o faterion yn mynd i'r Cofnod testun llawn ac i'r adran briodol o gofnod senedd.tv. Felly, byddai unrhyw ddinesydd sydd am weld beth ddywedodd Aelod unigol yn fanwl mewn trafodion yn gallu clicio ar y linc a fydd yn mynd i'r Cofnod llawn yn ei ffurf fwyaf dilys ac i'r rhan berthnasol o'r fersiwn destun. Yn yr un modd, gallai dinesydd glicio ar air allweddol a fyddai gyda linc arno i rannau o'r trafodion sy'n briodol o ran cynnwys a chyd-destun.

75. Felly, er enghraifft byddai aelod o'r cyhoedd neu newyddiadurwr sydd â diddordeb yn Llinell Canol Cymru yn gallu gweld o Gofnod y Werin a gyfeiriwyd ato'n benodol mewn trafodaeth ar reilffyrdd, ac os felly, byddai'n gallu mynd at y rhan/rhannau priodol o'r drafodaeth drwy linc uniongyrchol.

76. Gellir defnyddio adnoddau a ryddheir drwy beidio â chyfieithu a golygu'r trawsgrifiad o'r Cyfarfod Llawn i ddatblygu a golygu Cofnod y Werin dwyieithog. Credwn yn unfrydol y gallai hyn hyrwyddo gwaith y Cynulliad yn well, gan gynnwys y defnydd a wna o'r iaith Gymraeg, a hynny yn fwy na'r defnydd cyfyngedig a wneir o'r Cofnod ar hyn o bryd. Gallai hefyd gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ddinasyddion wrth iddynt ddefnyddio'r Cofnod.

B3 Gwasanaethau dwyieithog eraill

77. Cynigion y Comisiwn mewn perthynas â'r Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn a arweiniodd at sefydlu'r Panel, ac rydym wedi ystyried y mater hwnnw a'r mater cysylltiedig ynghylch trawsgrifio cyfarfodydd pwyllgor uchod. Fodd bynnag, mae ein cylch gorchwyl hefyd yn cyfeirio at wasanaethau dwyieithog yn fwy cyffredinol, ac felly rydym nawr am drafod y gwasanaethau a'r materion hynny a ddeilliodd o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni.

Y cofnod cyhoeddus ac archifo

78. Casglwyd tystiolaeth fod adrannau 146 i 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofnodion cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn dilyn darpariaethau tebyg yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 na chawsant erioed eu gweithredu. Byddai angen iddynt gael eu gweithredu drwy orchymyn gan yr Arglwydd Ganghellor i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gofnodion cyhoeddus yng Nghymru i Weinidogion Cymru (neu aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru). Er ein bod yn synnu nad oes unrhywbeth wedi digwydd ynghylch y mater pwysig hwn am gyfnod o bron deuddeng mlwyddyn ers datganoli, nid yw'n fater y mae'r Comisiwn yn gyfrifol amdano. Felly, ni fyddai'n briodol i ni wneud argymhellion ar hyn yn ein Hadroddiad.

79. Mae'r ffaith bod cofnodion y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad wedi'u heithrio'n benodol o'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus Cymru yn rhinwedd adran 148(1)(f) o Ddeddf 2006, yn fwy perthnasol i ni. Caiff cofnodion o'r fath hefyd eu heithrio o'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus yn Neddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. Felly, cyfrifoldeb y Comisiwn ei hun yw cofnodion y Cynulliad neu gofnodion Comisiwn y Cynulliad.

80. Credwn y dylai'r deunydd a'r dogfennau clyweledol a gynhyrchir gan y Cynulliad yn y ddwy iaith fod yn rhan ganolog o gofnodion hanesyddol Cymru. Felly, rydym yn **argymell** y dylid sicrhau bod y trefniadau ar gyfer archifo cofnodion o'r fath yn y tymor hir a sicrhau bod y cyhoedd yn gallu'u defnyddio, gyda chymorth y Llyfrgell Genedlaethol, yn cael eu cwblhau yn fuan.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

81. Buom yn ystyried rôl Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a nodwyd ei rôl allweddol o ran cyfrannu at drafodaethau a phrosesau gwneud polisi Aelodau. Er bod yr adran yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau mewnol y Cynulliad, nodwyd gennym sgiliau golygu'r adran a gaiff eu defnyddio yn ei hadroddiadau a'i chyhoeddiadau.

82. Rydym yn **argymell** y dylid cyhoeddi papurau ymchwil y Gwasanaeth (sydd o safon uchel iawn) y gellir eu llwytho o'r wefan (a phob dogfen arall a gynhyrchir gan y Cynulliad) yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

83. Yn ychwanegol at y papurau ymchwil, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynhyrchu papurau briffio i Aelodau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor a thrafodaethau yn y Cyfarfod Llawn. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth gefndir a chwestiynau posibl i'w defnyddio gan Aelodau mewn pwyllgorau, ac ni chânt eu cyhoeddi yn gyffredinol. Rydym yn **argymell** y dylai papurau briffio o'r fath fod yn ddwyieithog oni bai fod cyfyngiadau amser yn golygu nad yw hyn yn ymarferol. Gall hyn godi pan fo papurau briffio yn dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig a ddaw i law gan ffynonellau allanol a phan nad yw'r dystiolaeth honno yn dod i law yn ddigon buan cyn y cyfarfod dan sylw fel bod modd cyfieithu'r briff. Mewn amgylchiadau o'r fath, rydym yn **argymell** bod cwestiynau posibl at ddefnydd Aelodau sy'n siarad Cymraeg mewn pwyllgor ar gael yn y ddwy iaith er mwyn ennyn Aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg

fwy. Afraid dweud mai po fwyaf yr Aelodau sy'n siarad Cymraeg mewn trafodaethau y mwyaf y bydd yr iaith Gymraeg yn rhan o'r cofnodion gair am air dwyieithog.

84. Rydym yn **argymell** y dylai fod gan y Gwasanaeth yr adnoddau i'w alluogi i ymateb yn brydlon i ymholiadau gan Aelodau yn Gymraeg ac y dylid hyrwyddo'r gwasanaeth hwn er mwyn gwrthbwysu'r disgwyliad presennol ymhlith Aelodau y bydd oedi cyn cael deunydd yn Gymraeg. Felly, rydym yn **argymell** bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agosach â'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a thrafodwn hyn ymhellach ym mharagraff 100.

85. Adolygwyd y defnydd o dechnoleg adnabod llais a datblygiadau eraill fel y gallu i gyfieithu drwy ddefnyddio "google". Yn benodol, cawson dystiolaeth ddefnyddiol gan sefydliad rhyngwladol arweiniol yn y maes technoleg adnabod llais.

86. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad yn defnyddio hen fersiwn o feddalwedd adnabod llais a dim ond yn ei defnyddio i raddau cyfyng. Rydym yn **argymell** y dylid diweddarau'r feddalwedd hon ar unwaith. Credwn hefyd y gellid sicrhau mwy o fesurau effeithlonrwydd drwy wneud defnydd mwy eang o'r feddalwedd hon ac felly rydym yn **argymell** y dylid gwneud defnydd mwy helaeth o'r feddalwedd wrth baratoi trawsgrifiadau o'r Cofnod. Hefyd, dylai tîm y Cofnod barhau i adolygu datblygiadau technegol ym maes meddalwedd adnabod llais a chyfieithu â pheiriant er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu mor effeithlon â phosibl.

87. Rydym hefyd yn **argymell** bod y Comisiwn yn ceisio cymorth cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y sain cyfieithu ar y pryd (Cymraeg i Saesneg) yn cael ei ddefnyddio fel y sail i'r gwaith golygu.

88. Casglwyd tystiolaeth hefyd yn nodi bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygu meddalwedd adnabod llais Cymraeg cysylltiedig. Rydym yn **argymell** y dylai'r Cynulliad weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu meddalwedd o'r fath ymhellach a allai fod o gymorth sylweddol wrth baratoi pob dogfen ddwyieithog.

89. Nodwn nad yw technoleg adnabod llais yn gallu adnabod y geiriau a siaradir gan Aelodau gwahanol mewn trafodaethau ar hyn o bryd. Er hynny, rydym yn argymell ym mharagraff 60 bod y Cynulliad yn parhau i adolygu datblygiadau o'r fath er mwyn gallu manteisio ar feddalwedd aml-ddefnyddiwr cyn gynted ag y bo wedi'i datblygu'n ddigonol. Credwn y bydd yn debygol o fod yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor lle ceir niferoedd llai cyn y bydd yn addas i'w defnyddio yn y Cyfarfod Llawn.

B4 Trefniadau gweinyddol

Cyfathrebu allanol

90. Rydym yn **argymell** y dylai pob gohebiaeth rhwng y Cynulliad a'r cyhoedd fod yn y ddwy iaith ac eithrio wrth ymateb i ohebiaeth gan aelodau unigol o'r cyhoedd neu sefydliadau unigol pryd y dylai'r ymateb adlewyrchu iaith yr ohebiaeth a dderbyniwyd. Mae hyn yn cyfateb yn gyffredinol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, cawsom dystiolaeth nad yw pob datganiad i'r wasg ar gael ar yr un pryd yn y ddwy iaith. Pwysleisiwn y dylai'r egwyddor ddwyieithog fod yr un mor gymwys i ddatganiadau ag ydyw i gyhoeddiadau eraill a'r holl ddulliau cyfathrebu digidol.

Staff

91. Nodwn fod y gyfran o staff sy'n siarad Cymraeg yn amrywio cryn lawer rhwng adrannau'r Cynulliad. Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn sicrhau bod gan bob adran ddigon o staff i'w galluogi i ddarparu ei gwasanaethau i'r cyhoedd ac i Aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg heb ddibynnu gormod ar y cyfieithwyr.

92. Rydym yn cyfeirio ym mharagraff 40 at broffil iaith gwasanaeth diogelwch y Cynulliad. Fel rhan o'r gwasanaeth hwn, sef y prif bwynt cyswllt o ran ymwelwyr â'r Senedd a Thŷ Hywel, credwn y dylai fod yn bosibl i staff o leiaf ddarparu cyfarchiad a chroeso dwyieithog sylfaenol i ymwelwyr. Rydym yn **argymell** bod y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth i wella'r gwasanaeth dwyieithog a ddarperir gan staff diogelwch, a hynny drwy hyfforddi staff presennol a recriwtio staff dwyieithog pan fydd swyddi'n dod yn wag.

93. Rydym yn **argymell** y dylid hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog er mwyn gwrthbwyso'r gred a'r disgwyliad presennol ymhlith rhai

Aelodau a staff y Cynulliad na ellir darparu gwasanaethau yn Gymraeg yr un mor brydlon ag y gellir gwneud hynny yn Saesneg.

94. Rydym yn **argymell** y dylai fod gan bob aelod o staff rywfaint o sgiliau yn yr iaith Gymraeg neu dylai fod yn caffael rhywfaint o sgiliau. Bydd y sgiliau gofynnol yn amrywio o'r gallu i gyfarch i'r gallu i gyfieithu neu i ddrafftio deddfwriaeth a dogfennau cymhleth eraill yn Gymraeg.

95. Rydym yn **argymell** y dylid cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fwy helaeth a dwys, yn arbennig i staff newydd gan gynnwys y rheini a gaiff eu recriwtio o'r tu allan i Gymru.

96. Rydym yn **argymell** y dylai'r Cynulliad gynnal ymarfer meincnodi drwy gymharu ei hun â sefydliadau eraill yng Nghymru y mae ganddynt, ynghyd â'r Cynulliad, y gwasanaethau dwyieithog mwyaf datblygedig. Gallai enghreifftiau gynnwys Cyngor Gofal Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Un o'r materion y byddem am i'r Cynulliad fynd i'r afael ag ef fel rhan o ymarfer o'r fath yw'r modd yr atebir galwadau ffôn. Deallwn fod rhai aelodau o staff yn amharod i ateb y ffôn yn ddwyieithog oherwydd y gallai awgrymu, yn gamarweiniol, eu bod yn gallu parhau â'r alwad yn Gymraeg. Nid yw hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r ethos dwyieithog y mae'r Cynulliad yn ceisio'i gyfleu, a byddai ymarfer meincnodi yn galluogi'r Cynulliad i wella'i ddwyieithrwydd presennol.

97. Roedd yn destun pryder i ni nad yw llawer o hysbysebion recriwtio'r Cynulliad fel arfer yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y cyddestun dwyieithog. Cafwyd tystiolaeth fod sawl aelod o'r cyhoedd yn credu bod y gallu i siarad Gymraeg yn ofynnol er mwyn gweithio yn y Cynulliad, ac felly nid ydynt yn ceisio rhagor o wybodaeth. Felly, rydym yn **argymell** y dylid cynnal ail ddadansoddiad trylwyr o'r swyddi y mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ac y dylid

adlewyrchu hyn mewn hysbysebion. Byddai hyn yn golygu bod modd hysbysebu swyddi eraill yn y fath fodd a fyddai'n denu'r rheini sydd â sgiliau Cymraeg mwy cyfyng neu nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, ond sy'n barod i'w datblygu i raddau amrywiol.

98. Nodwn yr anogaeth a'r gefnogaeth gyffredinol a roddir i staff ddysgu Cymraeg, ond mae'n peri pryder i ni nad yw'n ymddangos ei fod yn canolbwyntio'n arbennig ar alluogi staff i ddarparu gwasanaeth gwell. Roedd yn peri pryder i ni fod dysgu iaith yn weithgaredd sy'n dibynnu, i raddau, ar gymhelliad yr unigolyn ac nad yw wedi'i gyfeirio at ganlyniadau cyfunol a mwy deinamig. Mae hyn yn cyferbynnu â'r hyfforddiant a'r cymorth arbennig a roddir i Aelodau'r Cynulliad sydd wedi'i deilwra i'w galluogi i weithredu'n fwy effeithiol fel Aelodau. Rydym yn **argymell** y dylid cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o hyfforddi Aelodau i addysgu staff fel bod y rheini sy'n cael gwersi Cymraeg yn gallu cyfrannu mwy at wasanaethau'r Cynulliad a ddarperir yn yr iaith Gymraeg. Gellir darparu hyn drwy diwtor deinamig sydd wedi'i leoli'n barhaol ar y safle a fyddai'n gweithio gyda staff a'u hysgogi o ddydd i ddydd.

99. Roedd asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl y Cynulliad yn adlewyrchu buddsoddiad nodedig iawn yng nghyd-destun datblygu staff. Ein hargymhelliad yw sicrhau bod staff yn datblygu yr un mor effeithiol yn y ddwy iaith er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwasanaethau sydd yr un mor effeithiol, prydlon ac effeithlon yn y ddwy iaith.

100. Cawsom y ffrainc o ystyried pob agwedd ar y Cynulliad fel sefydliad dwyieithog ac mae'r golwg gyfannol hon wedi ysgogi syniadau rydym yn gobeithio y byddant yn sail i ddatblygiadau yn y dyfodol. Mae'r gorgyffwrdd o ran gweithgarwch nifer o adrannau wedi'n taro yn arbennig, gan gynnwys yr adran Cyfathrebu Allanol, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

I raddau amrywiol, mae pob un yn cynnwys gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd ac yn gwneud gwaith golygu gwybodaeth yn y ddwy iaith mewn un ffurf neu'r llall ar hyn o bryd. Nodwn hefyd fod datblygiadau technolegol fel meddalwedd adnabod llais yn newid natur gwaith trawsgrifio a chyfieithu a fydd yn arwain at arbed rhywfaint o amser ond hefyd at fwy o bwyslais ar sgiliau golygu. Yn y cyfamser, mae ein hargymhelliad i gael "Cofnod y Werin" dwyieithog newydd hefyd yn golygu bod angen creu rôl olygu newydd sy'n ymwneud â gwaith presennol Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ogystal â'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi.

101. Felly, rydym yn **argymell** y dylid ystyried creu swydd lefel uchel gyffredin i gydgyssylltu'r gwaith pwysig hwn yn well o safbwynt yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd, a hynny o ran sgiliau staff, amlwasgio a dyrannu adnoddau. Mae'r swydd hon hefyd yn cyd-fynd â'n syniad o gael hyrwyddwr dwyieithrwydd i'r Cynulliad ar lefel Bwrdd Rheoli. Rydym yn **argymell** y dylid rhoi'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddwyieithrwydd (nid cyfieithu'n unig) i Gyfarwyddwr neu i Aelod o'r Bwrdd Rheoli sydd â brwdfrydedd a dylanwad, ac y dylai'r person hwnnw weithredu fel "hyrwyddwr" dwyieithog.

B5 Materion eraill

Dulliau cyfathrebu'r Aelodau

102. Rydym yn **argymell** y dylai pob cyhoeddiad a deunydd cyhoeddus a gynhyrchir gan Aelodau ac a gaiff ei ariannu o gyllideb y Cynulliad, gan gynnwys penawdau llythyrau, manylion cyswllt a hysbysiadau ar gyfer cymorthfeydd, fod ar gael yn ddwyieithog yn unol ag ethos dwyieithog y Cynulliad.

Ieithoedd eraill

103. Cafwyd tystiolaeth mewn perthynas â defnyddio ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y Cynulliad. Rydym yn **argymell** y byddai'n ddefnyddiol o ran datblygu dealltwriaeth pe bai crynodeb o gefndir datganoli a rôl y Cynulliad ar gael ar dudalen flaen y wefan mewn ieithoedd eraill a ddefnyddir yn gyffredinol gan y rheini sy'n byw yng Nghymru a'r rheini sy'n ymweld â'r Cynulliad.

Grwpiau allanol

104. Ystyriwyd y defnydd a wneir o safleoedd y Cynulliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau gan grwpiau allanol ac yn benodol a ydynt yn darparu deunydd arddangos dwyieithog a chyfleusterau cyfieithu ar y pryd. Ein casgliad yw ein bod yn **argymell** bod y Cynulliad yn creu ac yn cyhoeddi canllawiau ar arfer gorau sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i grwpiau allanol pan fyddant yn cynnal digwyddiadau ar safleoedd y Cynulliad.

B6 Sylwadau i gloi: sefydliad gwirioneddol dwyieithog

105. Roedd ein cylch gorchwyl yn cyfeirio at 'gyflawni uchelgais y Cynulliad i fod yn "sefydliad gwirioneddol dwyieithog"'. Rydym wedi ceisio amlinellu'r newidiadau a fydd yn helpu i gyflawni'r uchelgais hon yn ein Hadroddiad. I gasglu, rydym wedi mynd ati i geisio diffinio beth fyddai sefydliad gwirioneddol dwyieithog. Rydym yn awgrymu'r canlynol -

"Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad lle gall Aelodau a'r cyhoedd ddewis gweithio neu gyfathrebu naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle bo defnyddio'r ddwy iaith yn fater o falchder i bawb. Golyga hyn y dylai fod gan bob aelod o staff rywfaint o sgiliau yn y ddwy iaith, er y bydd hyn yn amrywio o'r gallu i gyfarch i'r gallu i ddrafftio a chyfieithu dogfennau cymhleth yn y ddwy iaith. Mae strategaethau a dyheadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn adlewyrchu statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."

106. Byddai mabwysiadu datganiad fel hwn, a'r argymhellion a amlinellwyd gennym uchod, yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i fod yn gorff y dylid ei efelychu yng nghyd-destun darparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru.

Atodiad 1. Y tystion a gyflwynodd tystiolaeth ar lafar

Aelodau'r Cynulliad-

Y Llywydd
Peter Black AC
Paul Davies AC
Dai Lloyd AC
Jenny Randerson AC
Rhodri Glyn Thomas AC

(Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig hefyd gan Gwenda Thomas AC)

Tystion allanol-

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Yr Arglwydd Elystan Morgan
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Nuance Communications
Yr Athro Colin Williams
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Staff Comisiwn y Cynulliad

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Pennaeth y Rhaglen Newid
Pennaeth Cyfathrebu Allanol
Pennaeth yr Adran Adnoddau Dynol
Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi
Rheolwr TGCh a Datblygu Gwasanaethau Amlgyfrwng
Tiwtor yr Iaith Gymraeg
Golygydd y We
(Roedd cydweithiwr ambell aelod o staff hefyd yn bresennol)

Casglwyd tystiolaeth anffurfiol hefyd gan aelodau eraill o staff y Cynulliad.

Atodiad 2 Deunydd darllen pellach

[Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(Saesneg yn unig\)](#)

[Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

[Deddf yr Iaith Gymraeg 1993](#)

[Gorchymyn Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Statws y Goron\) \(Rhif 2\) 2007 \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cynllun Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)

[Mesur Arfaethedig y Gymraeg \(Cymru\)](#)

[Comisiwn y Cynulliad - Cofnodion cyfarfod 21 Medi 2009](#)

[Cost Gwasanaethau Dwyieithog – Cais am wybodaeth \(Saesneg yn unig\)](#)

[Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cymariaethau rhyngwladol](#)

[Deddf yr Iaith Aeleg \(Yr Alban\) 2005 \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cynllun Iaith Aeleg Corff Corfforaethol Senedd yr Alban \(Saesneg yn unig\)](#)

[Cyfansoddiad Iwerddon \(Saesneg yn unig\)](#)

[Deddf Ieithodd Swyddogol 2003 \(Iwerddon\) \(Saesneg yn unig\)](#)

[leithoedd Swyddogol a'r Senedd \(Canada\)](#) (Saesneg yn unig)

[leithoedd Swyddogol a'r Senedd \(New Brunswick\)](#) (Saesneg yn unig)

[Deddf Rhif 1, 7 Ionawr 1998, ar bolisi ieithyddol](#) (Saesneg yn unig)

[Statud Ymreolaeth Gwlad y Basg](#) (Saesneg yn unig)